

Ystâd y Senedd - Rhagfyr 8/9

17 Chwefror 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 22 Ionawr 2021, pan wnaethoch ofyn:

Regarding the inquiry into whether Members of the Senedd broke rules relating to the COVID restrictions and their conduct on the parliamentary estate on Dec 8/9 2020 (as reported in the press on Jan 20 2021), can you confirm whether or not CCTV equipment was installed in the room(s) where those under investigation were present during the evening of December 8 and early hours of December 9 2020. If so, has the CCTV footage been reviewed as part of the investigation, and if not, will it be?

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yn ofalus y wybodaeth a geisir yn eich cais ynghylch lleoliad offer teledu cylch cyfyng, rydym o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn peryglu diogelwch unigolion, yn ogystal â chael effaith negyddol ar ein gallu i ddiogelu diogelwch cenedlaethol. O'r herwydd, rydym o'r farn bod y wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 38(1)(b) ac adran 24(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) yn y drefn honno.

Mae rhesymau eraill pam fod yr eithriad hwn yn gymwys wedi'u nodi yn yr **Atodiad** isod.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

[A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?](#)

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Atodiad

Adran 24 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae adran 24(1) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- *Information which does not fall within section 23(1) is exempt information if exemption from section 1(1)(b) is required for the purpose of safeguarding national security.*

Nid oes diffiniad o "ddiogelwch cenedlaethol" yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd y Tribiwnlys Gwybodaeth yn yr achos Norman Baker v y Comisiynydd Gwybodaeth a Swyddfa'r Cabinet (EA/2006/0045 4 Ebrill 2007) wedi crynhoi bod "diogelwch cenedlaethol" yn cynnwys amddiffyn democratiaeth a systemau cyfansoddiadol y wladwriaeth.

Rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol atal y wybodaeth hon er mwyn atal niwed, neu'r risg o niwed, rhag digwydd i Aelodau o'r Senedd, Staff Cymorth Aelodau o'r Senedd, staff Comisiwn y Senedd, ac ymwelwyr ag ystâd y Senedd, yn ogystal â seilwaith ac adeiladau'r Senedd ei hun.

Mae'r wybodaeth a gwmpesir gan y cais yn ymwneud yn uniongyrchol â threfniadau ar gyfer diogelwch ystâd y Senedd. Y risg wrth ddatgelu'r wybodaeth hon yw ei bod yn debygol iawn y bydd yn niweidio effeithiolrwydd a chywirdeb y trefniadau hynny. Byddai datgelu lleoliadau camerâu yn darparu gwybodaeth am y galluoedd diogelwch yn ystâd y Senedd, gan ddangos cryfder neu wendid y trefniadau diogelwch sydd ar waith.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad cymwys, ac o'r herwydd, rhaid ystyried budd y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad. Mae budd cyhoeddus pendant mewn tryloywder yn gyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â'r Senedd a Chomisiwn y Senedd. Ein barn ystyriol ni, fodd bynnag, yw bod rhyddhau'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio cywirdeb ac effeithiolrwydd trefniadau diogelwch y Senedd.

Ar hyn o bryd, asesir bod y lefel bygythiad o derfysgaeth ryngwladol yn y DU yn sylweddol, fel y gwelir yn: - <https://www.mi5.gov.uk/threat-levels>

Mae gan y Senedd hanes cadarn o fod yn agored ac yn atebol ac efallai y byddai gwybodaeth o'r natur y gofynnwyd amdani wedi bod ar gael i'r cyhoedd yn y gorffennol. Yn wyneb y lefel bygythiad uchel fodd bynnag, ac wrth ystyried camau diogelwch, ymarferion, a mesurau rhagofalus parhaus sy'n cael eu mabwysiadu mewn rhai dinasoedd mawr ac adeiladau cyhoeddus, mae'r dadleuon o ran budd cyhoeddus dros atal y wybodaeth, yn ein barn ni, yn drech na'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

Adran 38 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae adran 38(1)(b) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- *Information is exempt information if its disclosure under this Act would, or would be likely to, endanger the safety of any individual.*

Mae adran 38(1)(b) yn canolbwyntio ar wybodaeth a allai beri risg pe bai'n cael ei datgelu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai arwain at risg i ddiogelwch Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, staff y Comisiwn, ymwelwyr ac unigolion eraill ar ystâd y Senedd.

Mae Adran 38 yn ddarostyngedig i brawf peryglu. Felly, rhaid i ni fod yn fodlon y byddai'r perygl yn deillio o ddatgelu'r wybodaeth. Mae peryglu diogelwch fel arfer yn gysylltiedig ag amddiffyn unigolion.

Mae rhai pobl neu grwpiau mewn cymdeithas yn arbennig o agored i niwed, ac efallai y bydd eu diogelwch yn cael ei beryglu'n haws na phobl eraill. Mae hyn yn cynnwys ffigurau cyhoeddus, fel Aelodau o'r Senedd, y mae'n ofynnol iddynt fynegi eu barn wleidyddol yn gyhoeddus. Gall hyn achosi iddynt wrthdaro ag unigolion neu grwpiau a allai fod â safbwyntiau gwahanol a cheisio achosi niwed iddyn nhw a'r rhai o'u cwmpas o ganlyniad i hynny.

Drwy ddatgelu gwybodaeth ynghylch y strwythur a'r trefniadau diogelwch sydd ar waith yn y Senedd, gan gynnwys lleoliad offer teledu cylch cyfyng, byddai hyn yn cynyddu'r risg y bydd grwpiau a/neu unigolion yn amlygu gwendidau yn nhrefniadau diogelwch y Senedd, sydd felly'n rhoi'r rheini sy'n gweithio ar ystad y Senedd ac yn ymweld â hi mewn mwy o berygl.

Yna aethom ymlaen i ystyried y prawf budd y cyhoedd. Yn rhan o'r prawf hwn, mae angen cydbwysu'r risgiau i iechyd a diogelwch unigolyn neu grŵp yn erbyn budd y cyhoedd o ran dwyn y Senedd i gyfrif. Rhaid ystyried y prawf hwn fesul achos.

Mae budd amlwg i'r cyhoedd fod Comisiwn y Senedd yn dryloyw yn ei waith er mwyn gallu ei ddwyn i gyfrif. Fodd bynnag, mae budd cryf i'r cyhoedd hefyd ar gyfer dal gwybodaeth yn ôl a fyddai'n taseilio'r system ddiogelwch sydd ar waith i amddiffyn diogelwch grwpiau ac unigolion, yn ogystal â chaniatáu i unigolion adnabyddus, fel ffigurau cyhoeddus, gael eu targedu.

Yn yr achos hwn, rydym o'r farn nad yw budd y cyhoedd o blaid datgelu yn gorbwyso'r angen i ddiogelu uniondeb y trefniadau diogelwch sydd ar waith er mwyn diogelu'r Senedd a'r ystâd, a'r rheini sy'n gweithio ar yr ystâd ac yn ymweld â hi.